Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 22ain o Chwefror 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Dirprwy Faer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Owen James, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Richard Wallace
Y Cynghorydd Sir Edward Thomas
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Carol Watts, y Cyng. Geraint Price

Datganiadau o Fuddiant. Mae pob un o'r Cynghorwyr yn Aelodau answyddogol o'r Gymdeithas Trefeillio

Materion yn ymwneud â'r Heddlu.
Dywedodd y SCCH Louise Lewis y cafwyd digwyddiad yn y White Hart, lle cafodd person ei gyhuddo o fod yn feddw ac yn afreolus. Cafodd ei gyhuddo hefyd o ymosod ar Swyddog Heddlu. Reportiwyd achos arall o ymladd ym Mharc Lewis. Daethpwyd o hyd i ganabis yn y fflat i fyny'r grisiau, a chafodd person ei arestio a'i ryddhau ar fechnïaeth.
Roedd yr Heddlu'n parhau i orfod mynd i'r afael â phobl ifanc yn yfed yn yr Orsaf Drenau ac yna'n dianc pan fo'r Heddlu'n cyrraedd, rhag ofn iddynt gael eu hadnabod. Mae pobl ifanc yn yfed ym Mharc Le Conquet hefyd.
Holodd y Cyng. Eifion Davies a fyddai camerâu CCTV ychwanegol o gymorth i'r Heddlu.
Dywedodd y SCCH Lewis bod camerâu CCTV newydd wedi cael eu darparu ar rai ffyrdd lleol, ond nad oeddent yn cwmpasu ardaloedd cyhoeddus eraill.
Cynigodd y Cyng. Davies bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd newydd yn cael ei wahodd i gwrdd gyda'r Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins.

Cof 289 / Chwef / 17 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y Cyfarfod. Dywedodd y Cyng. Thomas bod Cyngor Sir Gâr wedi cytuno ar gynnydd o 2.5% yn y praesept ar gyfer 2017/18.
Adroddodd bod Cory Baldwin o Landeilo wedi cael ei gynnwys yn Nhîm Rygbi Dan 20 Cymru i herio Tîm Dan 20 Yr Alban. Gofynnwyd i'r Clerc i anfon llythyr i longyfarch Cory.
Dywedodd y Cyng. Thomas y byddai'r gwaith ar y llwybr beicio newydd, o Landeilo i Gaerfyrddin, yn cychwyn yn fuan.

Cof 290 / Chwef / 17 Cofnodion Blaenorol.
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 25ain o Ionawr 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir, wedi ychwanegu bod y Cyng. Rebecca Butcher wedi datgan buddiant yng nghais cynllunio E/34800.

Cynigwyd gan y Cyng. Rebecca Butcher ac eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 8fed o Chwefror 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Julia Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 8fed o Chwefror 2017, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 291 / Chwef / 17 Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol

Ynglŷn â Cof 285/ Chwef /17. Adroddodd y Clerc nad oedd Andrew o Easy PC wedi cysylltu ag ef eto mewn perthynas â'i argaeledd i gynnal sesiwn hyfforddi ar gyfer y Cynghorwyr a'r Staff.
Ynglŷn â Cof 279/ Chwef /17. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y rhoddion cytunedig, o £20 yr un, yn cael eu rhoddi i Mathew Corner, Angela White, Geraint Price a Dawn Nulty, fel iawndal am y trydan a ddefnyddiwyd gan y motiffau goleuadau Nadolig, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd pawb o blaid.
Ynglŷn â Cof 280/ Chwef / 17. Adroddodd y Cyng. Robert Jones bod y teulu lleol o Syria wedi derbyn y gwahoddiad i fynychu'r cyngerdd yng Nghapel Newydd a'r Twmpath Dawns.

Cof 292 / Chwef / 17 Gohebiaeth yn galw am ymateb

1. Y Diweddaraf ar Lwybr Cerdded Calon Cymru. Nodwyd.
2. Hwyl Llandeilo Litfest.
   Llythyr gan Christoph Fischer mewn perthynas â chyfres o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu trefnu yn Llandeilo rhwng y 27ain-30ain o Ebrill.
   Fe wnaeth y Cyng. Rebecca Butcher ddatgan buddiant ac ni wnaeth gyfranogi yn yr eitem hon. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Cyngor yn rhoddi £200 tuag at gefnogi'r digwyddiadau, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.
3. Cariad. Roedd y Clerc wedi trefnu i gynrychiolydd o'r elusen i annerch y Cyngor ar ymarferoldeb gosod diffibrilwyr yng Nghanol y Dref. Nodwyd.
4. Roedd y Maer wedi derbyn gwahoddiad gan Glwb yr Olwyn Fewnol, Llandeilo, i'r Cynghorwyr fynychu cinio / cyfarfod yn y White Hart mewn perthynas â sefydlu Llandeilo yn Dref Gyfeillgar i Ddementia. Nodwyd.

Cof 293 / Chwef /17 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Ymddiriedolaeth Hywel Dda, ynglŷn â phrosiect newydd o'r enw Rhaglen Drawsnewid. Nodwyd.
2. Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig, yn cyhoeddi bod Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig wedi penodi Cate Morgan fel eu Trysorydd newydd. Nodwyd.

Cof 294 / Chwef / 17 Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w talu.

	Net	TAW	Cyfanswm
Grant Thornton/ Archwilio Cymru	£ 253.50		£ 253.50*
Ar y Gair (cyfieithu)	£ 138.20		£ 138.20*

Ar y Gair (cyfieithu)	£ 135.60		£ 135.60*
Adroddiad Arolwg Carl Morgan	£ 700.00		£ 700.00*
Adroddiad Peter Tomkinson	£ 300.00	£ 60.00	£ 360.00*
Cyfreithwyr Hugh Williams (cofrestrfa tir)	£ 596.00	£ 90.00	£ 686/
Hugh Williams (talu o ernes)	- £ 200.00		£ 486.00 i dalu*
Davies Electrical (DD583,533A,583B)	£ 4,100.00	£ 820.00	£ 4,920.00*
CGGC (gwein cyflogres Ionawr)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
Gwynne fencing DD570A (Neuadd y Sir)	£ 95.00	£ 19.00	£ 114.00#
Gerwyn's (Coeden Nadolig) DD585	£ 450.00		£ 450.00~#
Edward Thomas (hysbysiad digwyddiad dros dro)	£ 21.00		£ 21.00*
Rebecca Butcher (treuliau teithio- hyfforddiant)	£ 7.20		£ 7.20#
Clerc (blodau i wraig AS)	£ 30.00		£ 30.00#

du- debyd uniongyrchol # - siec * bacs.

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 295/ Chwef / 17 Materion Ariannol Eraill

Ceisiadau am Gymorth Ariannol.

1. Cymdeithas Trefeillio Llandeilo. Cynigwyd y swm a gyllidwyd o £500 gan y Cyng. Rebecca Butcher ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
2. URDD Blaenau Tywi. Gan na ddarparwyd unrhyw ddatganiad ariannol, nid oedd modd rhoi ystyriaeth i'r cais. Nodwyd.
3. Sioe Frenhinol Cymru. Cynigodd y Cyng. Gordon Kilby rodd o £200. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.
4. Menter Bro Dinefwr. Cynigodd y Cyng. Julia Jones rodd o £100 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.
5. Ymddiriedolaeth Canser yr Arddegau. Cynigodd y Cyng. Julia Jones rodd o £250 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 296 / Chwef / 17 Trawsgludiaeth a Phriffyrdd.

1. Llythyr gan y CS Edward Thomas i Ken Skates AC mewn perthynas â damwain ddiweddar ar gylchfan yr A40/A483 ar ddiwedd Stryd Rhosmaen. Nodwyd.
2. Gohebiaeth gan Peter Morgan, SWTRA, yn dweud y byddai Bwi Le Conquet, a ddifrodwyd yn y ddamwain ar gylchfan yr A40/A483, yn cael ei ail-godi.
3. Cau Ffordd Dros Dro – U4038 ym Mhenybanc. Nodwyd.
4. Cau Ffordd Dros Dro – yn Adeiladau'r Banc. Nodwyd.

Cof 297 / Chwef /17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd adroddiad Mr Davies wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw. Dywedodd bod problemau'n parhau gyda rhieni'n gyrru i mewn i dir yr ysgol wrth ddod â'u plant i'r ysgol. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at y ddwy ysgol, i fynegi pryder y Cyngor am faterion yn ymwneud â diogelwch y plant. Roedd y Cyngor yn dymuno derbyn atborth gan Lywodraethwyr y ddwy ysgol.

Cof 298/ Chwef /17 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer adroddiad ar yr achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor.

Dydd Sul, 29ain o Ionawr Gwasanaeth y Plygain yn Eglwys Llandeilo

Dydd Sadwrn, 4ydd o Chwefror Mynychu Gwasanaeth Elusen Cadeirydd CSG yn Llanelli.

Dydd Mawrth, 7fed o Chwefror Mynychu cyfarfod cyhoeddus Syria Sir Gâr yn Neuadd y Sir.

Nos Iau, 9fed o Chwefror Mynychu ffilmio rhaglen deledu Pawb a'i Farn yn Ysgol Bro Dinefwr.

Cof 299 / Chwef / 17 Adroddiadau Eraill.

1.Dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Adroddodd y Cyng. Robert Jones am y trefniadau terfynol ar gyfer pob un o'r digwyddiadau a drefnwyd yr wythnos ganlynol. Cynigodd y Cyng. Rebecca Butcher bod y Cyng. Julia Jones a'r Cyng. Colin Jenkins yn derbyn caniatâd i siarad â Golygydd y Carmarthen Journal am ddiffyg sylw i Landeilo yn y newyddion, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cynigodd y Maer bleidlais o ddiolch i'r Cyng. Robert Jones am ei holl waith caled wrth drefnu'r digwyddiadau Gŵyl Ddewi. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

2.Adroddiad Neuadd y Sir. Adroddodd y Cyng. Edward Thomas bod cais Menter Bro Dinefwr am grant Loteri wedi mynd drwodd i Gam 2 a'u bod wedi derbyn swm o £49,000 i gynnal astudiaethau dichonoldeb.

Cof 300 / Chwef / 17 I dderbyn Enwebiadau ar gyfer Maer 2017/18

Cynigodd y Cyng. Julia Jones y Cyng. Eifion Davies ar gyfer Maer 2017/18. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Gordon Kilby. Roedd pawb o blaid.
Derbyniodd y Cyng. Eifion Davies yr Enwebiad.

Cof 301 / Chwef / 17 I dderbyn Enwebiadau ar gyfer Dirprwy Faer 2017/18

Cynigodd y Cyng. Gordon Kilby y Cyng. Edward Thomas ar gyfer Dirprwy Faer 2017/18.
Eiliwyd y Cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Derbyniodd y Cyng. Edward Thomas yr Enwebiad.

Cof 302 / Chwef / 16 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.09yh.